



Taith Llyffant y Twyni, Talacre, Sir y Fflint

Taith gerdded sy'n ymweld â phyllau bridio Llyffantod y Twyni yn Nhwyni Talacre - anifail arbennig a phrin sydd â galwad bridio hynod o uchel a nodedig.

"Taith gerdded gylchol ysgafn sy'n eich galluogi i fod yn agos at natur gyda chyfleoedd i ymuno â Llwybr Arfordir Cymru i ymestyn eich taith ymhellach."

GRUFF OWEN, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau a Diwedd:

Meysydd parcio Talu ac Arddangos ar ddiwedd ffordd Gamfa Wen y tu ôl i'r ganolfan gymunedol, yn dilyn y llwybr llanw uchel caniatuol wedi'i arwyddo gyda saethau coch ar yr arwyddbyst.

Pellter:

2 milltir/3km.

Ar hyd y ffordd...

Dewch o hyd i'r hysbyswrdd pren ar ben gogleddol maes parcio Gamfa Wen ac ewch drwy'r ffrâm ac ymuno â'r llwybr bordiau pren. Mae hwn yn ymuno â Llwybr Arfordir Cymru. Trowch i'r dde gan ddilyn arwyddion ar gyfer 'traeth ac atyniadau'.

Mae'r llwybr pren yn troi'n drac tarmac sy'n eich arwain i'r siopau yn Ffordd yr Orsaf ac yna'n troi i'r chwith i fyny'r arglawdd. Bydd hysbyswrdd yma yn dangos tablau amser y llanw.

Trowch i'r chwith, gan fynd i'r gorllewin ar hyd yr arglawdd, oddi yma dylech allu gweld pen coch y goleudy.

Dilynwch y fforch chwith i lawr at byllau bridio caeedig llyffantod y twyni, bydd panel dehongli ar yr arglawdd yn darparu gwybodaeth am y llyffantod.

Oddi yma mae'r llwybr ar borfa a thywod, cymerwch sylw o'r saethau coch sy'n mynd tua'r gorllewin, dros yr ysgol dywod a pharhau i ddilyn y saeth ar droed cefn y twyni tywod.

Ymhen hanner milltir, byddwch yn dod ar draws ardal fridio gaeedig arall llyffantod y twyni. Os ydych yn dilyn y daith gerdded hon yng nghyfnos y gwanwyn byddwch yn clywed galwadau bridio'r llyffantod gwrywaidd, a all fod yn fyddarol! Mae'r saethau coch yn mynd â chi ar hyd hen drac congrid, y credir iddo gael ei adeiladu yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan oedd Twyni Talacre yn faes tanio Spitfires.

Cymerwch y fforch ar y chwith, i fyny a dros y trac crwm, ewch i'r chwith wrth y gyffordd T ac yna llwybr gwastad yn syth yn ôl i'r meysydd parcio.

Angen gwybod:

Nid yw'r daith gerdded hon yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn na bygis oherwydd bod y tir yn anwastad ar adegau penodol o'r daith. Mae yna gaffi cyfagos a chwpl o dafarndai ar ddechrau'r daith gerdded hon.

I ymestyn y daith gerdded, ewch i'r traeth lle mae milltiroedd o lannau tywodlyd, arhoswch ar ben y traeth gan fod tywod sy'n suddo yn bresennol ar lanw isel.

Lawrlwythwch Llwybr Digidol Gogledd ddwyrain Cymru <<https://www.northeastwales.wales/things-events-holidays-break-ideas-within-corner-north-wales/visit-north-east-wales/north-east-wales-digital-trails/>> Ap am fwy o bethau i'w gwneud i ymweld â nhw yn yr ardal hon: <<https://www.northeastwales.wales/things-events-holidays-break-ideas-within-corner-north-wales/visit-north-east-wales/north-east-wales-digital-trails/>>